

Targed	Sut rydych chi wedi gweithio ar hwn?	Esiampl
“Cymharu ffynonellau yn fwy cyson - rwyf ti'n llwyddo i wneud hyn yn barod - beth am anelu at fwy o gymharu?”	Wrth drafod am fodelu edrychais ar ddwy ochr y ddadl a chymharu.	Paragraff ‘trosolwg o lenyddiaeth’.
“Osgoi paragraffau rhy hir.”	Wrth gwblhau'r aseiniad darllenais dros fy ngwaith yn ofalus i baragraffu yn y manau addas ac er mwyn osgoi paragraffau rhy hir.	Paragraffau ‘trosolwg o lenyddiaeth’.

Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Prosiect Ymchwil ar raddfa fechan yn canolbwyntio ar ddiddordeb proffesiynol.

Cyflwyniad

Bwriad yr aseiniad yma yw cynnal prosiect ymchwil ar raddfa fechan yn canolbwyntio ar gwestiwn dewiswyd o fewn grwpiau bach. Y cwestiwn dewiswyd oedd sut gall modelu gan athrawon gael effaith ar ymrwymiad plant? I gychwyn roedden heriol i benderfynu ar un topig o ganlyniad i ddiddordebau amrywiol gan aelodau'r grŵp, ond ar ôl trafodaeth cyfunwyd dwy agwedd sef ymrwymiad a modelu i greu'r cwestiwn. Cytunwyd ar y ffocws yma oherwydd roedd pawb yn awyddus i ymchwilio i bwysigrwydd modelu ymhellach oblegid i brofiadau personol ar leoliad ysgol. Cynhalir yr ymchwil yn ysgol bentrefol Cymraeg o fewn dosbarth blwyddyn 3 gyda 21 o blant aml-gallu. Dyma brofiad defnyddiol i ychwanegu i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) oherwydd mae'n gyfle gwych i gynnal ymchwil ar lawr y dosbarth ar dopig sydd o ddiddordeb personol ac sy'n cyfoethogi dealltwriaeth ac arfer dysgu. Fel rhan o'r ymchwiliad bydd arsylwad gwrs a chyfweliad i gasglu data. I arsylwi sut gall modelu gael effaith ar ymrwymiad y plant bydd recordiad o'r wers i ail-ymweld. Wrth wyllo cymerir nodiadau a defnyddir Graddfa Leuven i fesur lefel o ymgysylltiad y dysgwyr yn ystod y wers. Yna, cynhalir cyfweliad gyda grŵp o ddysgwyr â nifer bach o gwestiynau'n

gysylltiedig i fodelu er mwyn wrando ar lais y disgybl a chasglu eu barn. Yn deillio o'r ymchwiliad yma hoffwn weld os ydy modelu mewn amrywiaeth o ffyrdd ac ar adegau gwahanol yn gwneud y broses o ddysgu a deall disgwyliadau tasg yn haws i ddysgwyr sy'n arwain at gynyddu eu lefel o ymgysylltiad yn y dysgu.

Adolygiad llenyddiaeth

Bwriedir trafod am gryfderau a chyfyngiadau modelu yn ystafell dosbarth. Dywed Wilson (2020) mae gan fodelu'r potensial i newid persbectif plentyn o le maent yn cofio ffeithiau a gwybodaeth er mwyn sefyll profion i ddeall tasg gymhleth. Dyma syniad tebyg i fwriad Llywodraeth Cymru (2020) i ddisgyblion ymgysylltu â disgrifiadau dysgu Cwricwlwm i Gymru mewn modd dwfn a soffistigedig i ysgogi meddwl ac ymholi. I ddechrau, darparodd modelu ffordd i gamu i ffwrdd o amlddewis a thuag at asesiadau sy'n adlewyrchu ymarfer dilys (Wilson, 2020). Dros y blynyddoedd yn yr ystafell dosbarth daw modelu yn ddull ar gyfer cyflwyno a chysylltu syniadau newydd i osgoi'r camddealltwriaeth (Wilson, 2020). Daw ORBIT (2011) i'r casgliad bod modelwr effeithiol yn paratoi o flaenllaw yn llwyddiannus yn enwedig os ydy'r topig neu dasg yn un newydd i'r dosbarth. Defnyddir y cyngor yma wrth baratoi ar gyfer yr arsylwad gwers. Awgryma Chilvers (2006) bod gan blant gronfa o sgiliau i'w helpu i ddysgu, er bod rhai o'r sgiliau yma'n bresennol o enedigaeth, fel y gallu i gyfathrebu, mae angen datblygu rhai sgiliau wrth i blentyn aeddfedu. Yn yr un modd, dadleua Hopwood a Defis (2017) yn y Cyfnod Sylfaen mae modelu'n strategaeth hanfodol i ddysgu sgiliau sylfaenol i blant, megis sut i chwarae, rhannu a defnyddio iaith. Erbyn Cyfnod Allweddol 2 (CA2) mae athrawon yn modelu i ddangos i ddisgyblion sut i lwyddo yn dasg benodol a chyflawni'r amcanion dysgu (Hopwood a Defis, 2017). Cryfder arall modelu yw bod modd gweld sut mae disgyblion yn dysgu a deall yn y ddau gyfnod o ganlyniad i'r modelu ac yna mynd i'r afael â heriau (Wilson, 2020). Yn amlwg, dyma ddull defnyddiol ar gyfer gwahanol oeddrannau sydd wedi arwain at greu'r cwestiwn ymchwil yma oherwydd cafwyd pob aelod o'r grŵp dosbarthiadau a chatau cynnydd gwahanol.

Bwriad modelu yw i oedolyn ymyrryd er mwyn helpu'r plant deall maes neu ddisgwyliadau tasg benodol, er hyn awgryma Siencyn (2010) dylai oedolyn camu yn ôl er mwyn i'r disgyblion ddefnyddio'u sgiliau a dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi cael ei modelu yn annibynnol. Cefnogir y datganiad hwn ac ystyrir y llenyddiaeth yma wrth gynnal y wers ar fodelu. Atgyfnertha Chilvers (2006) pwysigrwydd rôl yr oedolyn wrth gynorthwyo plant er enghraifft trwy fodelu cysyniadau neu ymddygiad. Yn debyg, mae Bruner a Vygotsky (dyfynnwyd yn McLeod, 2019) yn pwysleisio dylai oedolion chwarae rhan weithredol wrth gynorthwyo dysgu'r plentyn trwy'r broses sgaffaldio. Cysyniad Vygotsky (1978) yw bod

llawer o ddysgu pwysig gan y plentyn yn digwydd trwy fodelu gan diwtor medrus, mae'r plentyn yn deall y gweithredoedd neu'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr athro a defnyddio'r wybodaeth i arwain neu reoleiddio eu perfformiad eu hun. Ar y llaw arall honna Berk (2004) fod gormod o arweiniad gan oedolyn yn amharu ar eu hannibyniaeth, chwilfrydedd a gallu i feddwl dros eu hunain.

Er hyn, mae rhaid ystyried yr heriau. Dadleua ORBIT (2011) un o heriau modelu yw'r ffaith bod rhaid ystyried gwybodaeth a phrofiadau blaenorol y dysgwyr cyn cyflwyno model newydd. Dyna pam maent yn bwysig i greu ac egluro'r cysylltiadau rhwng y profiad blaenorol a'r syniad newydd. Un o gyfyngiadau modelu yw gall y disgyblion dibynnu ar fodelu'r athrawon gormod, sy'n arwain at fethu meddwl dros eu hun. Mewn un astudiaeth modelu mathemateg gan Greefrath a Volholter (2016), canfu oherwydd ni ddywedwyd wrth y plant am sut i weithredu'r hyn a modelwyd nid oedd y plant yn gallu penderfynu sut y gallent ddefnyddio'r dull fathemateg fel offeryn. Felly, yn yr achos yma mae'r plant yn gorddibynnu ar arweiniad yr oedolyn. Ymhellach, mae'n wybodus defnyddir rhai ysgolion y damcaniaeth poblogaidd 'hoff arddull dysgu', lle mae'r disgyblion yn cael eu hadnabod fel dysgwyr gweledol, clywedol neu ginsthetig (Siencyn, 2010). Ond, yn ôl Kratzig a Arbuthnott (2006) ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r theori yma. Felly, cyfyngiad modelu yw nad yw'n ddigon i ddefnyddio adnodd gweledol yn unig, oherwydd pwysleisir gwaith Malaguzzi (1991, dyfynnwyd yn Siencyn, 2010) bod gan blant amrywiaeth o ffyrdd o fynegi'u hunain a dysgu. Yn ogystal â hyn mae gan Bruce (2006) dadl ddilys bod modelu yn ddull defnyddiol mewn rhai sefyllfaoedd, ond mewn cyd-destun creadigol gellir caethiwo creadigedd plant, felly mae angen darparu rhyddid i blant datblygu'n annibynnol. Fodd bynnag, cred Bruner (1977) yw bod sgaffaldio dysgu'r plant yn bwysig, ar adegau nad yw darparu adnoddau'n ddigonol mae angen mewnbwn addas gan unigolyn mwy profiadol. I grynhoi ni ddylid gor-ddefnyddio'r strategaeth yma, ond ni ellir anghofio eu pŵer i arwain dysgu.

Roedden heriol i ddarganfod astudiaethau ac ymchwil yn benodol ar fodelu, felly wrth gynnal yr ymchwiliad yma'r bwriad yw gau'r bwlch o fewn y llenyddiaeth. Ar y cyfan, roedd y wybodaeth oedd ar gael yn bositif a doedd dim llawer o gyfyngiadau sydd wedi arwain at ddewis y cwestiwn ymchwil. Wrth gynnal yr ymchwil bydd ystyriaeth bellach o theori Vygotsky (1978), ond ar yr un pryd bydd ystyriaeth o ddatganiad Berk (2004) bod gormod o arweiniad yn gallu rhwystro datblygiad y plentyn.

Methodoleg

Astudiaeth Gwers

Mae astudiaeth gwers yn ddull poblogaidd o ddatblygu arfer proffesiynol athrawon ers yr 1870au yn Siapan (Özdemir, 2019). Pwrpas astudiaeth gwers yw cael grwpiau o athrawon yn cyd-gynllunio, addysgu gwersi, arsylwi ar y cyd a dadansoddi eu harfer (Dudley, 2014). Dros gylch o wersi ymchwil gallant arloesi neu fireinio dull pedagogiaidd a fydd yn gwella dysgu disgyblion a chael ei rannu ag eraill trwy wersi ymchwil cyhoeddus neu trwy gyhoeddi papur yn amlinellu eu gwaith (Dudley, 2014). Dyma offeryn effeithiol i wella arfer yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â chefnogi datblygiad proffesiynol athrawon, sydd hefyd yn cael ei gadarnhau gan ganlyniadau astudiaethau cenedlaethol a rhyngwladol ar yr un pwnc (Özdemir, 2019). Cryfder astudiaeth gwers yw'r ffaith mae'n helpu athrawon i sylweddoli'r bylchau yn dysgu'r plant, i asesu mewn manylder ac felly addasu'r dysgu i gefnogi cynnydd (Dudley, 2011). Yn gysylltiedig, ffaith hysbys yw bod Cwricwlwm i Gymru (2020) yn pwysleisio'r pwysigrwydd o feithrin yr amgylchiadau cywir i blant gwneud cynnydd. Cryfder arall yw'r gefnogaeth darparir astudiaeth gwers i broses gynllunio athrawon, oherwydd mae'n sicrhau cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion y disgyblion ac i sicrhau cynnydd unigolion (Dudley, 2011).

Fodd bynnag, dylai athrawon sy'n defnyddio'r dull hwn gael eu cefnogi gan yr ysgol a dylent gael eu cymell i ddefnyddio'r dull yn aml ac yn barhaus er mwyn iddo fod yn effeithiol (Özdemir, 2019). Her arall yw gofynnir am lawer o amser ac ymdrech, felly'n annhebygol o fod yn llwyddiannus heb gwmpasu'r cylch llawn (Özdemir, 2019). Yn ychwanegol, mae angen digon o amser i'r athrawon ymchwilio, dysgu a chynnal yr astudiaeth sy'n ymweld yn amhosib gyda nifer o gyfrifoldebau athrawon (Özdemir, 2019).

Arsylwad

Mynefa Fawcett a Watson (2016) bod modd ddysgu llawer gan blant trwy wyllo a gwrando mewn ffordd wylidwrs. Cytuna Laevers (2005) gall arsylwi ar y modd mae plentyn yn ymwneud a sefyllfa neu weithgaredd rhoi mewnweliad i ddysgu'r dysgwyr. Prif gryfder arsylwi yw ei defnyddioldeb i ymchwilydd casglu data mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd er mwyn deall tasgau penodol yn well (Kawulich, 2012). Ymhellach, mae'n galluogi'r ymchwilydd i gasglu data ar agweddau gwahanol fel yr amgylchedd, rhyngweithiadau, grwpiau neu unigolion (Morrison, 1993). Yn gyd-destun yr ymchwiliad yma mae arsylwi'n ddefnyddiol i sylweddoli ymatebion gwahanol y plant i'r strategaeth modelu a sut maent yn ymgysylltu efo'r dasg. Yn gysylltiedig, dywed Forman a Hall (2005) cryfder arsylwi yw mai'n ffyrdd i athrawon dysgu am blant a thrwy hynny mae modd wella ansawdd eu haddysgu. Dyma bwrpas astudiaeth gwers, i fyfrio ar y profiad ac yna wneud newidiadau er lles y plant. Yn yr un modd atgyfnertha Durrant (2016) mai arsylwi'n tynnu plant i ganol yr ymchwiliad ac mae dysgu o ymarfer dosbarth yw'r ffordd orau i symud ymarfer ymlaen.

Cryfder ychwanegol arsylwadau yw ei bod yn ddefnyddiol ar gyfer cofnodi ymddygiad dieiriau, ymddygiad mewn amgylcheddau naturiol a dadansoddiad hydredol (Bailey, 1994).

Er gall arsylwi fod yn offeryn ymchwil pwerus, nid yw heb ei anawsterau. Un her yw gall y diffyg rheolaeth mewn amgylcheddau naturiol olygu bod arsylwi'n llai defnyddiol, ynghyd ag anawsterau wrth fesur ac anawsterau wrth gynnal anhysbysrwydd (Bailey, 1994). Ni ellir anwybyddu'r ffaith mae'n heriol i ganolbwyntio ar weithred pob plentyn oherwydd bywiogrwydd ystafelloedd dosbarth (Llywodraeth Cymru, 2015). Dadleua Cohen, Manion a Morrison (2007) am ddibynadwyedd arsylwi fel offeryn ymchwilio gan fod cysondeb mewn arsylwadau'n amhosib. Er enghraifft, gallai ddisgyblion ddangos ymddygiad penodol unwaith yn unig, ond mae'n bwysig fel na chaiff ei ddiystyru oherwydd iddo ddigwydd unwaith (Cohen, Manion a Morrison, 2007). Ymhellach, gall gymryd amser hir i ddal yr ymddygiad neu'r ffenomen ofynnol a gall fod yn gostus o ran amser ac ymdrech (Cohen, Manion a Morrison, 2007). Yn olaf, gall fod yn heriol i feddwl yn ddiduedd ac agored wrth arsylwi. Ni ellir gwadu bod athrawon yn datblygu perthynas â disgyblion unigol, felly mae'n hanfodol osgoi defnyddio geirfa fel "meddwl" neu "teimlo" (Sutphen, 2019).

Wrth arsylwi bydd ffocws penodol ar dri disgybl; gallu uchel, canolig ac isel er mwyn cael cynrychioliad o'r dosbarth cyfan. Bydd angen cynnal gwers lle mae modd modelu darn o waith anghyfarwydd. Defnyddir taflen arsylwi (gwelir atodiad 3) i grynhoi'r arsylwad, darparu disgrifiadau manwl a chyfoethog o'r sefyllfa, a chofio manylion (Kawulich, 2012). Fel grŵp dewiswyd y Raddfa Leuven fel modd o werthuso'r wers, dyma asesiad a ddatblygwyd gan Ferre Leavers yng Ngwlad Belg (Lewis, 2011). Canolbwyntir ar ddau ddangosydd; lles a chyfranogiad/ymrwymiad a mesurir yn erbyn graddfa pump pwynt, lefel isel o gyfranogiad neu les yn sgôr o un a lefel uchel yw pump (Lewis, 2011). Yn yr achos yma bydd ffocws ar gyfranogiad y plant ar ôl tair gwahanol adegau o fodelu; dechrau, canol a diwedd y wers. Cyfeirir cyfranogiad at gymryd rhan mewn gweithgareddau, dysgu a datblygu lefel ddofn, ac ymgysylltu a'r wers (Cyngor Milton Keynes, 2020).

Cyfweliad

Un o gryfderau cynnal cyfweliad yw bod modd casglu gwybodaeth fanwl a chael mewnweliad i feddyliau'r cyfranogwyr trwy ofyn cwestiynau amrywiol (Adams, 2015). Dyma ddull defnyddiol oherwydd mae modd i'r cyfranogwyr ymhelaethu ar eu meddyliau ac esbonio eu profiadau'n fwy na chwblhau holiadur (Seidman, 2006). Hefyd, cysylltir i ran annatod o weledigaeth Cwricwlwm i Gymru sef pwysigrwydd llais y disgybl (Llywodraeth Cymru, 2020). Cysylltir hefyd i erthygl arfer dda Estyn (2019), yn Ysgol Dolbadarn mae llais

y disgybl yn ganolog i bob agwedd o fywyd ysgol. Bwriad yr ysgol yw i bob plentyn gymryd perchenogaeth ar yr hyn y maent yn eu dysgu a mynegi eu barn, ac o ganlyniad i hyn mae disgyblion yn dangos mwy o ddiddordeb a brwdfrydedd yn eu haddysgu sy'n galluogi cynnydd (Estyn, 2019). Cryfder arall cyfweiliadau yw gall ciwiau cymdeithasol, fel ton llais, iaith gorfforol ac ati roi llawer o wybodaeth ychwanegol, wrth gwrs mae gwerth ciwiau cymdeithasol hefyd yn dibynnu ar yr hyn mae'r cyfwelydd eisiau ei wybod (Opdenakker, 2006).

Er hyn mae rhaid ystyried y cyfyngiadau. Mae cyfweiliadau'n gostus o ran amser a gwaith paratoi fel cynllunio'r ymchwilio, cysylltu â chyfranogwyr, gwerthuso'r data a rhannu'r canfyddiadau (Seidman, 2006). Anfantais cyfweiliad weithiau yw nad yw'n bosibl caniatáu anhysbysrwydd bob amser, yn enwedig os mai'r ymchwilydd sy'n cynnal y cyfweiliadau yn nabod y cyfranogwyr. Mae rhai beirniadaethau o gyfweiliadau gan Bernstein (1974, dyfynnwyd yn Cohen, Manion a Morrison, 2007), awgrymir gallai cyfweiliadau fod yn anghyflawn ac yn gamarweiniol, oherwydd gall y cyfranogwyr eisiau plesio neu ddarparu'r 'ateb cywir'. Cefnoga Ponizovsky-Bergelson (2019) y datganiad yma, dywed mai plant yn meddwl bod oedolion yn profi nhw gyda chwestiynau i asesu gwybodaeth yn hytrach na chlywed eu barn.

Oblegid i oedran ifanc y plant yn y sampl mae'r cwestiynau yn syml a chryno (gwelir atodiad4). Cynllunnir pedwar cwestiwn yn seiliedig ar y wers arsylwi a'r strategaeth modelu. Hefyd, roedd rhaid addasu geirfa'r cwestiwn oherwydd oedran ifanc yn blant, yn lle defnyddio'r gair modelu defnyddir y gair enghraifft. Dechreuir gyda chwestiwn syml i weld beth ddysgodd y plant o'r wers ac felly gweld os gweithiodd modelu fel strategaeth i gynyddu ymrwymiad y plant. Yn ail, gofynnir am eu hoff ran o'r wers. Bydd gofyn y math yma o gwestiwn yn ddefnyddiol i ddeall diddordebau'r plant a'r hyn sy'n gweithio iddyn nhw yn y dosbarth (Hopwood a Defis, 2017). Nesaf, holir y cwestiwn mwyaf pwysig sef ydyn nhw'n hoffi gweld enghraifft o waith cyn cychwyn tasg, i ddeall eu barn am fodelu fel strategaeth. Ac yn olaf, gofynnir iddynt ymhelaethu ar y cwestiwn blaenorol gan esbonio sut mae dangos enghreifftiau'n helpu nhw.

Myfyrio

Dewisir model o ymarfer myfyriol Brookfield (gwelir atodiad5) i fyfyrio ar yr ymchwil. Un o gryfderau'r model yma a myfyrio'n feirniadol yw mai'n llwybr tuag at ddarganfod gwerth yr addysgu a gwella arfer er lles y disgyblion (Brookfield, 1995). Dywed Brookfield (2005) bod dau bwrpas penodol ar gyfer myfyrio o fewn addysg. Yn gyntaf, dod i well dealltwriaeth o sut mae pŵer yn sail ac yn ystumio prosesau addysgol, yn ail i gwestiynu arferion (Brookfield,

2005). Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth, os yw athrawon yn fwy myfyriol, eu bod mewn gwell sefyllfa i lunio barnau dibynadwy am ddulliau addysgu, gwerthuso, cynllunio'r cwricwlwm ac ymatebion pwrpasol i faterion dysgwyr (Telemaque, 2011).

Dewisir model yma oherwydd cynigir pedwar lens gall athrawon defnyddio mewn proses o fyfyrrio beirniadol. Y pedwar lens yw hunangofiannol, llais y disgyblion, profiadau cyfoedion a llenyddiaeth ddamcaniaethol (Brookfield, 1995), felly mae modd dadansoddi'r ymchwil o bersbectif gwahanol i gael casgliad mwy cyflawn. Ymhellach, dewisir y model yma o ganlyniad i'r strwythur, mae'n torri lawr yr agweddau pwysig o fewn y broses myfyrio. Yn gyntaf bydd ystyriaeth o agweddau personol a phrofiadau blaenorol yn yr adran hunangofiannol (Brookfield, 1998). Dyma ran ddefnyddiol o'r model oherwydd rhannir meddyliau a barnau personol am y sefyllfa. Yna, bydd angen myfyrio ar y profiad o bersbectif y disgyblion, gan dangos dealltwriaeth o'u diddordebau a chyfyngiadau (Brookfield, 1998). Cryfder y model yma yw mai'n meithrin cysylltiadau athrawon a disgyblion agosach ac yn creu lle diogel i blant leisio unrhyw feirniadaeth (Miller, 2010). Cysylltir hyn i weledigaeth Cwricwlwm i Gymru i gynnwys disgyblion yn y broses dysgu ac i greu cwricwlwm yn ganolog i lais y plentyn er mwyn gwella safon eu haddysg ac iddynt wneud cynnydd ar hyd y continwwm dysgu. Esiaml o ysgol sy'n gweithredu hyn yw Ysgol Penmaes lle rhannir safbwyntiau'r disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth well o'u hanghenion a diddordebau (Estyn, 2016). Wedyn, mae'n bwysig i drafod gyda chyfoedion i ddod o hyd i unrhyw fyfyrddodau sydd wedi cael ei goruchwyllo (Brookfield, 1998). Ac yn olaf, mae'n hanfodol i gefnogi'r darganfyddiadau gyda llenyddiaeth i gyfoethogi'r gwaith (Brookfield, 1998).

Ar y llaw arall mae cyfyngiadau i'r model yma, megis mae'n gostus o ran amser i ystyried y pedair agwedd a dod at gasgliad (Liebel, Burden a Haldal, 2017). Gellid dadlau ymhellach gan ddweud o ganlyniad i'r agweddau gwahanol does dim ffocws pendant i fyfyrrio ar ac felly mae absenoldeb o ddyfnder (Robles, 2019). Er gwaethaf, modd o ddatrys hyn yw cynllunio i ffocysu ar un agwedd ar y tro i sicrhau eglurder. Tra bod y dadlau yma'r gywir, mae rhaid nodi roedden heriol i ddod o hyd i gyfyngiadau'r model yma.

Ystyriaethau Moesegol

Dadleua BERA (2018) dylai ymchwilwyr weithredu'n foesebol wrth ymchwilio. Dylai unigolion gael eu trin yn deg, sensitif, â pharch, a rhyddid rhag rhagfarn (BERA, 2018). Yn ogystal â hyn, wrth ymchwilio mae'n hanfodol i gadw cyfrinachedd ac anhysbysrwydd. Mae disgwyliad i beidio rhannu manylion a gwybodaeth bersonol sy'n gallu adnabod y cyfranogwyr (BERA,

2018). Felly, yn ystod yr ymchwiliad na fydd unrhyw sôn am enw'r ysgol neu enwau'r staff a phlant. Yn ôl PCYDDS (2017) dylai ymchwilwyr ffurfio perthynas gyda rhieni ac ymdrechu i amddiffyn eu hawliau, oherwydd mae cyfrifoldeb i sicrhau nad yw'r ymchwil yn effeithio ar les cymdeithasol, seicolegol a chorfforol y cyfranogwr. O ganlyniad i'r disgyblion bod o dan 18 mae'n bwysig i dderbyn caniatâd rhiant a chael sgwrs gyda'r plant i weld os ydyn nhw'n hapus cymryd rhan (David, Edwards ac Alldred, 2001). Dosbarthir llythyron caniatâd yn ogystal â thaflen wybodaeth o flaenllaw i'r rhieni. Disgwylir i dderbyn cydsyniad gwybodus o'r plant ar ddechrau'r astudiaeth ac agwedd pwysig yw bod yn agored i'r posibilrwydd gall y cyfranogwyr dynnu eu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg neu am unrhyw reswm (BERA, 2018). Oblegid i oedran ifanc y plant i dderbyn cydsyniad defnyddir system bodiau i fyny neu i lawr. Yn ôl Blackburn (2015) mae angen i ymchwilwyr ddatblygu ffyrdd o gynnwys plant mewn ystod eang o wahanol amgylchiadau er mwyn cael gwybodaeth o ansawdd uchel, ond rhaid iddynt hefyd sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu. Yn gysylltiedig, mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Plant y DU 1989, yn nodi mae'n bwysig ystyried barn a theimladau plant mewn gweithdrefnau sy'n effeithio arnynt (Comisiynydd Plant Cymru, 2011). Yn olaf, mynna BERA (2018), dylai sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn deall pwrpas eu cyfranogiad, disgwyliadau'r astudiaeth, defnydd o'r canlyniadau a defnyddir gan bwy.

Mantais recordio'r cyfweiliadau a gwers yw bod adroddiad y cyfweiliad yn fwy cywir a manwl nag ysgrifennu nodiadau (Opdenakker, 2006). Yn deillio o hyn mae recordio yn dod â'r perygl cyfrinachedd (Opdenakker, 2006). Yn amlwg yn ystod yr ymchwiliad yma bydd llythyron caniatâd yn cael ei arwyddo gan rieni yn gyntaf. Ymhellach, cadwir y recordiad o fewn ffeil diogel y brifysgol ac yna caiff eu dileu ar ôl uwchlwytho'r canfyddiadau.

Defnyddir ffurflen moeseg (gwelir atodiad 1) i amddiffyn y cyfranogwyr ac ymchwilydd trwy ddangos ystyriaeth o safonau moesegol (UCL Research Committee, 2016). O fewn y ffurflen foeseg mae cyfres o gwestiynau i benderfynu a yw'r prosiect yn 'risg' (Newcastle University, 2020). Yn ogystal â hyn, dosbarthwyd ffurflen caniatâd i gadarnhau bod y rhieni a chyfranogwyr yn deall cynnwys yr ymchwiliad megis; amcanion, disgwyliadau, cyfrinachedd a hawl i dynnu allan (Ohio State University, d.d).

Canlyniadau astudio gwersi

Yn yr adran yma bwriedir trafod y wers a'r data a chasglwyd. Cynlluniwyd gwers (gwelir atodiad 6) iaith yn seiliedig ar greu poster i hysbysebu canmlwyddiant Mistar Urdd. Gweithredwyd y dosbarth trwy wneud carwsél wythnosol er mwyn i bob grŵp cael cyfle i gyflawni'r pedwar tasg. Felly, roedd y poster yn dasg ffocws i bedwar grŵp dros wythnos.

Trwy gydol yr arsylwad edrychir ar ymgysylltiad y plant ar ddechrau, canol a diwedd y wers gan ddefnyddio modelau gwahanol. Un ffordd o fodelu oedd trwy ddarparu matiau iaith gyda berfau gorchmynnol i fodelu'r iaith a sillafu cywir. Oblegid hyn, roedd bob darn o waith yn cynnwys nifer o frawddegau gyda berfau gorchmynnol fel 'dawnsiwch' a 'channwch' sydd wedi cyfoethogi a chodi lefel eu gwaith. Sylweddolwyd os nad oedd matiau iaith gan y plant roedden nhw'n osgoi ysgrifennu brawddegau llawn ac osgoi defnyddio geirfa gymhleth. Ar y cyfan, nodwyd roedd plentyn A (gallu uwch) yn defnyddio'r matiau geirfa i ymestyn eu brawddegau ac roedd plentyn C (gallu is) yn copïo'r geiriau lawr. Ymhellach, ar gyfer y grŵp gallu is cynlluniwyd templed poster i fodelu ble i roi'r wybodaeth a lluniau ar boster i'w helpu. Un ffordd arall defnyddiwyd modelau oedd yn ystod y cyflwyniad, canol y wers ac ar ddiwedd y wers trwy ddangos model da a gwael i'r plant cymharu a deall disgwyliadau'r dasg. Adlewyrchwyd yn y nodiadau bod plentyn C (gallu is), "10.50yb...yn dechrau talu sylw a chanolbwyntio unwaith dangosir y model da ar y sgrin". Gwelir o'r amser bod plentyn C yn ymgysylltu efo'r wers cyn cychwyn y dasg. Ar y cyfan, pryd dangoswyd y model ar y bwrdd rhyngweithiol roedd y plant yn canolbwyntio'n well, yn awyddus i gyfrannu i drafodaeth dosbarth ac yn frwdfrydig i gychwyn y dasg. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt megis, 'beth sy'n dda am y poster? a 'beth sydd modd wella?' Cyfrannodd y plant i'r drafodaeth dosbarth ac o ganlyniad i'r modelu yn ystod yr wythnos roedden nhw'n gallu nodi "doedd dim lliw...bod angen fwy o luniau...a chynnwys brawddegau bachog". Dengys yr ymateb yma roedd y plant yn deall beth i gynnwys mewn poster llwyddiannus. Yn olaf, i gloi bob sesiwn cafwyd gwaith y dysgwyr eu modelu ac fel dosbarth darparwyd adborth cadarnhaol ac adeiladol. Gweithiodd hwn yn wych i godi hyder ambell blentyn, yn enwedig plentyn B (canol). Cyflawnodd y plant nodau'r wers trwy greu posteri lliwgar a deniadol, a chynnwys yr agweddau hanfodol megis teitl, brawddegau byr a bachog, berfau gorchmynnol a lluniau.

Yn ystod y cyfweiliad mynegwyd barn glir gan bob disgybl, ac ar y cyfan, roedd y plant yn hoff iawn o fodelu. Un anhawster gyda'r cyfweiliad oedd nad oedd modd ymestyn atebion plentyn B oherwydd roedden nhw'n swil. Er hyn, disgwylir i dderbyn y canlyniadau cadarnhaol yma achos yn ystod lleoliad ysgol blwyddyn ddiwethaf gwelwyd y gwahaniaeth rhwng defnyddio model i gefnogi dysgu a pheidio. Hefyd, disgwylir y canlyniadau yma oherwydd edrychir ar ymchwil ac astudiaethau amrywiol. Dywedon nhw roedden haws, roedd llai o straen a deallon nhw ddisgwyliadau'r dasg yn well wrth gael rhywbeth gweledol i'w arwain. Ategodd disgybl A (gallu uwch) roedd yr enghraifft dda yn ddefnyddiol i gymharu â'i gwaith, felly roedden fel meini prawf llwyddiant gweledol. Ar ddiwedd y cyfweiliad cytunodd pob aelod o'r grŵp roedden nhw'n gweithio'n well a fwy annibynnol gyda model ac eisiau mwy o fodelu yn y dyfodol. Ar ôl ymchwilio a chasglu data cytunir gyda gosodiad Wilson (2020) sy'n nodi bod gan fodelu'r potensial i newid persbectif plentyn, oherwydd

roedd y plant yn ymgysylltu gyda'r wers yn well wrth i mi fodelu ac wedi cwblhau gwaith i safon uchel.

Ar gyfer yr wythnos ganlynol o addysgu rhoddwyd cyfle i'r plant creu hysbyseb i ddawns Santes Dwynwen i asesu eu dealltwriaeth newydd o sut i greu poster. Felly, addaswyd y wers trwy beidio modelu cymaint i weld os amsugnon nhw'r wybodaeth o'r wythnos flaenorol. Dilynir canllawiau Siencyn (2010) i gamu yn ôl er mwyn i'r disgyblion ddefnyddio'u sgiliau a dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi cael ei modelu a gweithiodd yn arbennig i asesu eu cynnydd. O ganlyniad i'r modelu yn y man cychwyn aeth y plant ati i greu'r posteri'n annibynnol. Fel arfer mae disgybl C (gallu is) yn cael anawsterau'n canolbwyntio, ond o ganlyniad i'r modelu aeth ati i greu poster ar y gliniadur i safon uchel. Profwyd hyn roedd y modelu trwy gydol yr wythnos wedi arwain at ddysgu a dealltwriaeth well, yn ogystal â chynnydd mewn dilyniant o wersi.

Wrth dynnu tua'r terfyn, roedden brofiad diddorol i arsylwi arfer personol ac ymateb y plant trwy recordio gwers a gwerthuso yn ôl Graddfa Leuven. Dysgir bod modelu'n bwysig yn yr ystafell dosbarth, yn enwedig wrth gyflwyno topig newydd neu ar gyfer y plant sy'n fwy gweledol. Efallai tro nesaf bydd modd dewis topig agored, yn lle ffocysu ar Mistar Urdd, i'r plant defnyddio eu sgiliau creadigol.

Canfyddiadau ymchwil

Cyflawniad plant gallu uchel

Yr hyn sy'n ddiddorol yw awgryma Clarke (1998) bod plant o alluoedd uchel yn teimlo bod ymyrraeth gan athrawon ar ffurf modelu ac ar adegau cyson yn ei diflasu ac yn amharu ar ei llif naturiol. Cyffredinolir bod dyma'r plant fydd yn gallu canolbwyntio am y cyfnodau hiraf yn y dosbarth, wrth adfyfyrio'r mae'r datganiad yma'n wir nad oedd y modelu wedi cynyddu eu lefel ymgysylltiad cymaint â phlentyn B (canol) a C (is). Wedi dweud hyn, roedd modelu'n gweithio'n dda iddynt oherwydd wnaethon nhw gymharu eu gwaith gyda'r model ac ymestyn eu sgiliau iaith trwy ychwanegu berfau gorchmynnol o'r matiau geirfa.

Cyflawniad plant gallu canolig

Fel sonnir yn y cyfweiliad, pryd cafwyd posteri'r dysgwyr eu modelu ar ddiwedd y wers roedden ddefnyddiol iddynt, a chysylltir hyn i gysyniad Vygotsky (1978) bod dysgu pwysig yn digwydd trwy fodelu gan diwtor medrus, oherwydd defnyddir y wybodaeth i arwain eu

perfformiad personol. Diddorol oedd gweld pa mor ddefnyddiol oedd hwn i godi hyder plentyn B (canol), roedden nhw'n teimlo'n bwysig a balch o'i gwaith.

Cyflawniad plant gallu isel

Wrth ddefnyddio'r cyfweiliad dywed plentyn C roedden cyflawni'r gwaith yn "haws", roedd llai o straen ac roedden "deall disgwyliadau'r dasg" yn well wrth gael rhywbeth gweledol i'w arwain. Yn ystod yr arsylwad roedden amlwg roedd y modelu'n (siarad yn bennaf am y templed a model dda) defnyddiol iawn i blentyn C ac roedden mwy hyderus ac awyddus i gwblhau gwaith.

Golygir hyn yn edrych ymlaen bydd y mwyafrif o wersi yn cynnwys rhyw fath o fodel i ddarparu cymorth ychwanegol i blant o alluoedd amrywiol. Awgrymir y canfyddiadau eu bod yn ddull addas ar gyfer grwpiau gallu gwahanol a darparir cymorth gwahanol iddynt.

Casgliad

Y brif neges yw bod plant yn gweld y broses o ddysgu'n fwy pleserus ac felly llai straenus wrth i oedolyn modelu disgwyliadau'r dasg. Hefyd, mae'n amlwg o'r canfyddiadau bod yn strategaeth sy'n gweithio i amrywiaeth o alluoedd am resymau gwahanol. Ymhellach, mae'r dadleuon ac ymchwil yn dangos yn glir fod arsylwi a chyfweiliadau'n dulliau dibynadwy i gasglu data gonest. Gweithiodd y daflen arsylwi Graddfa Leuven yn wych oherwydd roedden syml i'w ddefnyddio wrth wyllo'r clip fideo ac roedd modd ategu nodiadau manwl. Ar y cyfan, roedd y cyfweiliad yn ffordd ddilys o gasglu data oherwydd darparodd y plant atebion gonest ac aeddfed oherwydd nad oedd cwestiynau cymhleth neu bwysau arnynt. Cysylltir i un o'r safonau SAC lle pwysleisir gwrando ar y dysgwyr ac ystyried eu barn er mwyn eu cynnwys a'u hannog i gymryd rhan weithredol a llawn yn dysgu eu hunain. Ar un llaw, dewiswyd tri phlentyn o grwpiau gallu gwahanol i gael cynrychioliad dilys o'r dosbarth. Ar y llaw arall mae rhaid cadw mewn cof bod pob plentyn yn unigryw ac yn dysgu'n gwahanol, felly mae rhaid amrywio tactegau a strategaethau dysgu i gynnal brwdfrydedd ac awydd y plant.

Tro nesaf bydd defnyddio dulliau gwahanol i gasglu data i weld os oedd ffordd well yn ddiddorol. Hefyd, tro nesaf gofynnir mwy o gwestiynau megis 'sut gallwn wella modelu yn y dosbarth yn eich barn chi?', i wybod sut i symud ymlaen a gwella arfer. Yn y dyfodol, edrychir ar y strategaeth modelu gyda mwy o fanylder a chymharu sut mae modelu'n effeithio oedrannau gwahanol neu hyn yn oed cymharu'r effaith ar fechgyn a merched. Cysylltir i'r safon SAC lle sonnir dylai darpar athrawon darllen yn ehangach i arddangos

dealltwriaeth hyderus o ymchwil sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd er mwyn gwell eu harfer. Y brif neges o'r ymchwiliad yw bod grwpiau gallu gwahanol yn ymgysylltu'n dda efo dasg o ganlyniad i fodelu gan athrawon.

Argymhellion

Wedi ystyried yr holl ddadleuon ac ymchwil yn symud ymlaen defnyddir modelu yn y dosbarth i ysgogi plant a'u helpu deall yr hyn sydd angen gwneud. Er roedd y plant yn hoff iawn o fodelu gwaith cyn, yn ystod ac ar ddiwedd gwrs dydw i ddim am i blant gorddibynnu ar fodelu a dyma farn debyg sydd gan Greefrath a Volholter (2016). Yn ogystal â hyn nad yw'n ddigon i ddefnyddio'r strategaeth weledol yma'n unig, oherwydd mae plant yn dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Un cwestiwn mae modd ymchwilio'n bellach yw sut ydy oedrannau amrywiol yn ymateb i fodelu ac wedyn bydd modd cymharu'r canlyniadau a chael dealltwriaeth ddofn o effaith modelu. Bydd astudiaeth fanwl fel hon yn ffordd i addysgwyr deall pwysigrwydd ac effaith modelu. Pe bawn yn gwneud ymchwil astudiaeth gwrs eto hoffwn gael y cyfle i gwblhau'r cylchred llawn, oherwydd cyfyngiadau penodol nad oedd modd cael y cyfle i arsylwi aelodau o'r grŵp, bydd hwn yn werthfawr i arfer a datblygiad personol. Yn fras, dylai athrawon parhau i wella eu harfer er lles a chynnydd y dysgwyr, felly dyna pam mae astudiaethau gwrs a chynnal ymchwil ar raddfa fechan yn arfer dda. I gloi, cytunir gyda datganiad Lywodraeth Selan Newydd (2017) bod gan bob plentyn potensial anhygoel.

Geirfa: 4815

Cyfeirnod

Adams, W. (2015) Conducting Semi-Structured Interviews, yn Newcomer, K. *Handbook of Practical Program Evaluation*. Jossey-Bass.

Bailey, K. D. (1994) *Methods of Social Research*. 4ydd arg. Efrog Newydd: The Free Press.

BERA. (2018) *Ethical Guidelines For Educational Research*. 4ydd rhifyn. Llundain, tud.6-9.

Ar gael yn:

<https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/362316/mod_resource/content/1/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf> [Cyrchwyd: 8 Tachwedd 2021].

Berk, L. E (2004) *Awakening Childrens Minds: How Parents And Teachers Can Make A Difference*. Efrog Newydd: NY Oxford University.

Blackburn, C. (2015) *Researching With Young And Developmentally Young Children: Ethical Considerations, Dilemmas, And Compromises*.

Bera.ac.uk. Ar gael yn: <<https://www.bera.ac.uk/blog/researching-with-young-and-developmentally-young-children-ethical-considerations-dilemmas-and-compromises>> [Cyrchwyd: 8 Tachwedd 2021].

Brookfield, S. (1995) *Becoming a Critically Reflective Teacher*. San-Francisco: Jossey-Bass.

Brookfield, S. (1998) Critically Reflective Practice. *The Journal of Continuing Education in the Health Profession*, 18.

Brookfield, S. (2005) *The Power of Critical Theory: Liberating Adult Learning and Teaching*. San-Francisco: Jossey-Bass.

Bruce, T. (2006) *Early Childhood: A Guide for Students*. Llundain: Sage Publications.

Bruner, J. (1977) *The Process Of Education*. Cambridge, MA: Harvard University.

Chilvers, D. (2006) *Young Children Talking: The Art Of Conversation And Why Children Need To Chatter*. Llundain: British Association for Early Childhood Education.

Clarke, S. (1998) *Targeting Assessment In The Primary Classroom: Strategies For Planning, Assessment, Pupil Feedback And Target Setting*. London: Hodder & Stoughton.

Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2007) *Research Methods In Education*. 6ed Arg. Llundain: Taylor & Francis.

Comisiynydd Plant Cymru. (2011) *Deall Eich Hawliau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/ccfw_rights_poster_wel.pdf> [Cyrchwyd: 14 Tachwedd 2021].

Cyngor Milton Keynes. (2020) *The Leuven Well-being and Involvement Scales*. Ar gael yn: <https://r.search.yahoo.com/_ylt=AwrlAX5YmLBhckAASAF3Bwx.;_ylu=Y29sbwMEcG9zAzlEdnRpZAMEc2VjA3Ny/RV=2/RE=1638992088/RO=10/RU=https%3a%2f%2fwww.milton-keynes.gov.uk%2fassets%2fattach%2f65817%2f8.-Leuven-Wellbeing-and-Involvement-Scales.pdf/RK=2/RS=l6jlyKah3qb0zslinpfnszPZjg-> [Cyrchwyd: 8 Rhagfyr 2021].

David, M., Edwards, R. ac Alldred, P. (2001) Children And School-Based Research: 'Informed Consent' Or 'Educated Consent'?. *British Educational Research Journal*, 27(3), tud.347-365.

Dudley, P. (2011) *Lesson Study: What It Is, How And Why It Works And Who Is Using It?* Routledge.

Dudley, P. (2014) *Lesson Study: A Handbook*. LSUK.

Estyn. (2016) *Cyfranogiad Disgyblion: Canllaw Arfer Orau*. Hawlfraith y Goron.

Estyn. (2019) *Ysgol Yn Datblygu Llais Y Disgybl*. Estyn.llyw.cymru. Ar gael yn: <<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/ysgol-yn-datblygu-llais-y-disgybl>> [Cyrchwyd: 27 Tachwedd 2021].

Fawcett, M. a Watson, D. (2016) *Learning Through Child Observation*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Forman, G. a Hall, E. (2005) *Wondering with Children: The Importance of Observation in Early Education*. Chicago: Early Childhood Research & Practice.

Greefrath, G. a Vorhölter, K. (2016) *Teaching and Learning Mathematical Modelling: Approaches and Developments from German Speaking Countries*. Switzerland: Springer Nature.

Hopwood, M. a Defis, N. (gol.) (2017) *Llawlyfr Darpar-Athrawon Cymru*. Caerfyrddin: Yr Athrofa. [llawlyfr mewnol].

Kawulich, B. (2012) *Collecting Data Through Observation*. West Georgia: Researchgate. Ar gael yn:

<https://www.researchgate.net/publication/257944783_Collecting_data_through_observation> [Cyrchwyd: 21 Tachwedd 2021].

Kratzig, G. P. a Arbuthnott, K. D (2006) 'Perceptual Learning Style and Learning Proficiency: A Test of the Hypothesis', *Journal of Educational Psychology*.

Laevers, F. (2005) *Well-Being And Involvement In A Care Setting: A Proccess Orientated Self-Evaluation Instrument*. Belgium: Reseach Centre for Experiential Education.

Lewis, K. (2011) *Ferre Laevers Emotional Well Being And Involvement Scales*. Free Early Years and Primary Teaching Resources. Ar gael yn:

<<https://www.earlylearninghq.org.uk/earlylearninghq-blog/the-leuven-well-being-and-involvement-scales/>> [Cyrchwyd: 8 Rhagfyr 2021].

Liebel, G., Burden, H. and Heldal, R. (2017) For Free: Continuity And Change By Team Teaching, *Teaching In Higher Education*, 22(1).

Llywodraeth Cymru. (2015). *Effective Use Of Data And Research Evidence*. Caerdydd: UCL Ar gael yn: <https://dera.ioe.ac.uk/24313/2/150814-effective-use-of-data-en_Redacted.pdf> [Cyrchwyd: 10 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru. (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020a) *Datblygu Gweledigaeth Ar Gyfer Dylunio Cwricwlwm*.

Hwb.gov.wales. Ar gael yn: <<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-dylunio-cwricwlwm/#progression>> [Cyrchwyd: 19 Rhagfyr 2021].

Mcleod, S. (2019) *Bruner - Learning Theory in Education*. Simplypsychology.org. Ar gael yn: <<https://www.simplypsychology.org/bruner.html>> [Cyrchwyd: 4 Ionawr 2022].

Miller, B. (2010) *Brookfield's Four Lenses: Becoming a Critically Reflective Teacher*. Sydney: University of Sydney.

Morrison, K. R. B. (1993) *Planning and Accomplishing School-Centred Evaluation*. Dereham: Peter Francis.

Newcastle University. (2020) *Ethics Forms And Process*. Ncl.ac.uk. Ar gael yn: <<https://www.ncl.ac.uk/research/researchgovernance/ethics/process/>> [Cyrchwyd: 5 Ionawr 2022].

Ohio State University. (d.d) *Informed Consent In Research*. Ccts.osu.edu. Ar gael yn: <<https://ccts.osu.edu/content/informed-consent-research>> [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2020].

ORBIT. (2011) *Teaching approaches: Modelling - OER in Education*. Ar gael yn: <https://oer.opendeved.net/wiki/Teaching_Approaches/Modelling> [Cyrchwyd: 2 Ionawr 2022].

Opdenakker, R. (2006) Advantages and Disadvantages of Four Interview Techniques in Qualitative Research. *Forum: Qualitative Social Research*, 7(4).

Özdemir, S. (2019) Implementation of the Lesson Study as a Tool to Improve Students' Learning and Professional Development of Teachers. *Participatory Education Research*, 6(1), tud.36-53.

PCYDDS. (2017) *Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil*. Pcydds.ac.uk. Ar gael yn: <<https://www.pcydds.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/academic-office/misc-forms/REICoP-17-20-v3-CYM.pdf>> [Cyrchwyd: 10 Tachwedd 2021].

Ponizovsky-Bergelson, Y. (2019) A Qualitative Interview With Young Children: What Encourages or Inhibits Young Children's Participation?. *International Journal of Qualitative Methods*, 18(1-9).

Robles, J. (2019). Rotation Self-Evaluation Checklist (REC): A Preceptors' Perspective. *Currents in Pharmacy Teaching and Learning*, 11(3).

Seidman, I. (2006) *Interviewing As Qualitative Research: A Guide For Researchers In Education And Social Sciences*. 3ydd Arg. Efrog Newydd: Teachers College Press.

Siencyn, S. (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed*. Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Sutphen, A. (2019) *The Pros and Cons of Student and Teacher Observations*. Education News. Ar gael yn: <<https://www.educationviews.org/the-pros-and-cons-of-student-and-teacher-observations/>> [Cyrchwyd: 22 Tachwedd 2021].

Telemaque, E. (2011) A Review of: The Power of Critical Theory: Liberating Adult Learning and Teaching. *Journal of Research on Christian Education*.

UCL Research Committee. (2016) *UCL REC*. Ethics.grad.ucl.ac.uk. Ar gael yn: <<https://ethics.grad.ucl.ac.uk/why-is-ethical-approval-required.php>> [Cyrchwyd: 5 Ionawr 2022].

Vygotsky, L. (1978) *Mind in Society: The Development Of Higher Psychological Processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Wilson, K. (2020) *Modeling in the Classroom: Making Relationships and Systems Visible*. CBE—Life Sciences Education. Ar gael yn: <<https://www.lifescied.org/doi/10.1187/cbe.19-11-0255>> [Cyrchwyd: 2 Ionawr 2022].